

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIYD AR NOS  
FAWRTH 10FED O IONAWR 2017 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R  
GLOCH.

1: PRESENNOL: Y Cyngorwyr Brynle Lloyd (Cadeirydd), Siân Davies, Medwyn Jones, Gwyn Howatson, Deryl Roberts, Ian Hession, Clwyd Thomas, Mike Denman a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Cyngorydd Dewi Roberts a'r Cyngorydd Cyngor Sir Ddinbych Merfyn Parry.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 18fed o Dachwedd 2016 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cadarnhau enw "Cwrt Arthur" ar y datblygiad tai ar dir gerllaw Hafod Ynys yn Rhewl.

B. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan bwyllgor "Llanynys Community Playing Fields Association" am rodd y Cyngor Cymuned tuag at gostau'r yswiriant.

C. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Bwyllgor Clwb Bowlio Rhewl am rodd y Cyngor i brynu mat bowlio newydd.

D. Derbyniwyd lluniau gan y Cyngorydd Ian Hession o'r gafna sydd eisiau ei thrwsio ar y Llwybr Cyhoeddus wrth Clwydfro yn Rhewl.

5. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc - £6.047.00.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r Precept am y flwyddyn ariannol 2016/17 - £2,656.00.

C. Trafodwyd anghenion Precept y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2017/18 y Cyngor. Ar ôl ystyried anghenion cyllid y Cyngor penderfynwyd ar Precept o £8,925.00 am y flwyddyn ariannol 2017/18 - sef £25.00 ar y 357 o dai yn y gymuned.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi bloc stablau ar dir yn Glanynys, Llanynys.

2. Dymchwel adeiladau segur a chodi adeiladau amaethyddol ffrâm ddu ar gyfer cadw anifeiliaid da byw yn Nhŷ Mawr, Llanrhaeadr.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio i godi adeilad amaethyddol yn Hafod-y-Llan, Llanynys.

C. Mae'r cais cynllunio i newid defnydd tir amaethyddol i ardal cwrtil domestig a chodi garej adeilad ar wahân/storfa ym Mhlas Isa', Rhewl wedi mynd i'r apêl ar ôl chael ei wrthod gan Gyngor Sir Ddinbych.

D. Ceisiadau Cynllunio:-

1. Codi adeilad unllaw'r yn Firearms Training Complex, Graig-y-Ddwyart Quarry yn Rhewl - dim gwrthwynebiad.

2. Adeiladu modurdy a storfa ar wahân yn Cysgod-y-Coed, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.

## 7. GOHEBIAETH.

A. Derbyniwyd gwybodaeth Cyngor Sir Ddinbych trwy e-bost oddi wrth Y Cyngorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, ynglŷn ar ganlynol:-

1. Gofyn i'r Swyddogion edrych ar gyflwr pontydd Plas-yr-Esgob (ffordd Landyrnog) ar Afon Clywedog ar y A525 yn Rhewl.
  2. Mae yna berson yn byw yn y Garafán heb ganiatâd cynllunio wrth Llŷn Llanynys.
  3. Cyfrifoldeb safle Maes Parcio newydd ar y datblygiad tai newydd Cwrt Arthur yn Rhewl.
- B. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 8. UNRHYW FATER ARALL.

Nid chodwyd unrhyw fater arall.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 14eg o Fawrth 2017 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.